

CYNGOR TREF Y BALA TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor, Yr Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE

Ffôn: Tel: 07786 662905

cyngorybala@outlook.com

Cofnodion o Gyngor Tref Y Bala Ebrill 3ydd, 2014

Presennol: Y Maer, Dorothi Evans, Y Dirprwy Faer, Ivora Jones, Dilys Evans, Sharon Evans, Dilwyn Jones, Eluned Jones, Alun Price, Edith Roberts, Eifion Roberts, Carol Rowlands, John C Williams, Y Cyngorydd Dilwyn Morgan, Y Clerc, Lis Puw.

1. Estynnodd y Maer groeso cynnes iawn i bawb, ac yn arbennig i Carol Rowlands i'w chyfarfod cyntaf fel aelod o Gyngor Tref Y Bala. Ni dderbyniwyd ymddiheuriadau.
2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda
4. Derbyniwyd datganiadau buddiant gan Sharon Evans ym mater 8iii a Dilwyn Jones ym mater 11di, a'r Maer ym mater 9.iii
6. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Mawrth 6ed 2014. Nid oedd materion yn codi o gofnodion Mawrth nad oedd eisoes ar yr Agenda.
8. Adroddodd y Clerc ar faterion diweddar:
 - i. Cafwyd ymateb bositif gan y Swyddog Gorfodaeth Adran i gwynion am lanast yn y dref, ond gan fod ambell i sylw eto am lanast ar adegau tu nol i Bala Spice, cyfarwyddwyd y Clerc i roi gwybod eto am hyn i'r Swyddog Gorfodaeth. **Gweithredu: Clerc** Cytunodd y Maer i drafod gyda'r Pennaeth mater y cyhoedd yn taflu sbwriel i fuarth Ysgol y Berwyn. **Gweithredu: Y Maer.** Cytunwyd i fonitro glan y llyn ac ysgrifennu pe byddai angen. **Gweithredu: Clerc**
 - ii. Cytunwyd gyda chynnig lolo Tegid ar safle posib arall ar gyfer parcio i'r anabl. Tynnir sylw trigolion at y ffaith ei bod yn anghyfreithlon parcio heb gerdyn mewn safle sydd wedi ei neilltuo ar gyfer yr anabl ar Stryd Fawr Y Bala **Gweithredu: Clerc**
 - iii. Cafwyd adroddiad o'r ymweliad safle gydag Ifan Lloyd Evans am y lloches bws; bydd y Swyddog yn trafod ymhellach ond cytunodd y Cyngorwyr ar yr egwyddor fod angen lloches bws arall ar y Stryd Fawr. Mynegwyd pryder am y math o loches sy'n cael ei osod gan Gyngor Gwynedd ac roedd cytundeb y dylai unrhyw loches fod yn effeithiol ac yn gweddu efo'r bensaerniaeth leol.
 - iv. Derbyniwyd adroddiad gan Gymdeithas Tai Clwyd am lwyddiant y cyfle i gofrestru ar gyfer rhestr aros am gartref yng Nghanolfan Tegid ar 10/3/14
 - v. Arwyddodd y Clerc Gytundeb i dderbyn £3750 ar gyfer gosod goleuadau ar y coed. Cytunwyd i brynu'r goleuadau, ar ôl derbyn arweiniad gan Gyngor Gwynedd a'r darparwyr ond peidio eu gosod ar hyn o bryd gan y bydd y coed yn cael eu haddurno erbyn Eisteddfod yr Urdd.
 - vi. Arwyddodd y Clerc Gytundeb i dderbyn grant i greu gwefan
 - vii. Derbyniwyd barn arbenigwr fod y goeden ar y domen mewn cyflwr da; cytunodd y Maer, Eifion Roberts a'r Clerc i gyfarfod gyda swyddogion Gwynedd a Chadw am 2.00pm 4/4/14. Cytunwyd i godi mater y fainc o amgylch y goeden yn y cyfarfod hefyd.

viii. Adroddwyd fod llythyr at fusnesau am addurno ffenest i estyn croeso i Eisteddfod yr Urdd yn barod i'w rannu. Diolchwyd i'r Cyngorydd Dilwyn Morgan am gynnig eu rhannu unwaith eto.

8. Materion y Cyngorydd Sir :

Ymhlith materion eraill, cyfeiriodd y Cyngorydd Dilwyn Morgan at gynlluniau posib i ymestyn trac y trê'n bach at y dre. Cyfeiriodd hefyd at bwyllgor lleol a fydd yn codi arian i ddarparu dŵr i drigolion tre'r Bala yn Uganda. Dywedodd ei fod yn ceisio cael ateb positif i ail-leoli'r Ganolfan Ymwelwyr yn y dref. Roedd yn falch o adrodd bydd Mr Dusty Rhodes yn darparu tybiau blodau ar y Stryd Fawr.

9. Materion Cynllunio:

- i. Cymeradwywyd cais cynllunio NP5/53/526 sef adeiladu estyniad llawemcynntaf yn Ael y Bryn, 7 Maes Treflyn.
- ii. Cymeradwywyd cais cynllunio NP5/53/LB45A am newidiadau mewnol yn Henblas, 24 Stryd Fawr.
- iii. Cymeradwywyd cais cynllunio NP5/53/369A sef adeiladu estyniad ochr un llawr yn 4 Mawnog Fach
- iv. Derbyniwyd gwybodaeth bod caniatâd wedi ei roi i adeiladu adeilad gwasanaethu ceir yng ngarej Bodolwyn, Heol Arenig.
- v. Derbyniwyd gwybodaeth bod caniatâd wedi ei roi i newid defnydd i dy annedd ym Mronygraig, Heol Ffrydan.
- vi. Derbyniwyd map o ardal Cadwraeth Y Bala ynghyd â rheoliadau (e-bost yn amgaaedig)

10. Materion Cyllid:

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf
- ii. Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis: hysbyseb yn y Cyfnod: £15; G Edwards am ffensio, plannu a chlirio ar y domen: £396; HMRC 3 mis sef £248.40; cyflog y Clerc
- iii. Cytunwyd i ofyn am fanylion anfoneb am oleuadau'r coed 2013/14: £216 (£89.88 llynedd).
Gweithredu: Clerc

11. Gohebiaeth

- a. **Cyngor Gwynedd:** Nid oedd sylwadau ar gais am drwydded eiddo i gynnal Eisteddfod yr Urdd ar safle'r Rhiwlas.
- b. **Un Llais Cymru:** Derbyniwyd derbynneb am £273, sef y tâl aelodaeth am 2014-15. Cytunwyd i ystyried cynrychiolydd ar y pwyllgor ardal yn y Cyfarfod Blynyddol.
- c. **Heddlu:** Derbyn ymddiheuriad oddi wrth Mark Armstrong am iddo fethu'r cyfarfod diwethaf a chynnig i ymweld ym mis Mai.
- d. **Eraill**
 - i. Ystyriwyd cais pellach am arian i gynnal Cloc y Capel Saesneg oddi wrth Eglwys Bresbyteraidd Tegid a Llanfor. Cynigiodd y Maer i wneud cyfraniad o Gronfa'r Maer gan nad ydyw'r rheolau cyllidol yn effeithio ar y gronfa honno. **Gweithredu: Clerc**

- ii. Derbyniwyd llythyron o ddiolch am gyfraniadau ariannol oddi wrth Apêl leol Eisteddfod yr Urdd, Cantref, Ymatebwyr Cyntaf yn y Gymuned, Ffederasiwn CFFI Meirionnydd, Ymgyrch Cofeb y Cymry yn Fflandrys, Clwb Ieuencid Y Bala a Phwyllgor Cae Chwarae Heol y Castell.
- iii. Derbyniwyd gwybodaeth am gystadleuaeth garddio bywyd gwyllt
- iv. Derbyniwyd gwybodaeth am gau rhai llwybrau ym Meirionnydd dros dro i ganiatáu gwaith angenrheidiol gael ei wneud.

12. **Asedau'r Cyngor** – derbyniwyd adroddiad Dilys Evans ar eu cyflwr

13. **Partneriaeth Penllyn:** derbyniwyd adroddiad gan y cydlynnydd fod y r adeiladwr wedi derbyn agoriadau'r Henblas. Derbyniwyd yn ddiolchgar y cynnig i ddefnyddio'n ddi-rhent Swyddfa yn Henblas ar y cyd gyda Chynghorau eraill Penllyn. Derbyniwyd copi o Gytundeb Partneriaeth Penllyn gyda Chyngor Gwynedd.